**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (114)**
**Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio - Ni gyflwynwyd cynnig**

**......................................**

## Eitem 2

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Y cwestiynau

**......................................**

## Eitem 3

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Y cwestiynau

**......................................**

## Eitem 4

**Dadl ar Gynllun yr Ail Gynnig**

**NDM2266 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r hyn a wnaed i fyrhau amseroedd aros ers cychwyn cynllun yr ail gynnig ym mis Ebrill

2004;

2. Yn cymeradwyo penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fyrhau'r cyfnod aros yn y cynllun o 18 i 12 mis erbyn 31 Mawrth 2005;

3. Yn cydnabod y bydd rhai cleifion yn dal i benderfynu dewis derbyn gofal gan eu Hymddiriedolaeth leol;

4. Yn llongyfarch pawb sy'n gysylltiedig â'r cynllun am ei roi ar waith gydag egni, ymrwymiad a sylw gofalus i anghenion ac amgylchiadau unigolion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

***(1)***
***(2) & (3)***

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac yn ei le rhoi:**

1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau brys i leihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad at y gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gyfnodau aros sydd yn dangos hyd y cyfnod aros ar ôl cyfeirio gan y meddyg teulu.

3.Yn mynegi pryder bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu â rhoi ar waith fentrau ar gyfnodau aros sy’n cynnig gwerth da am arian a chwtogi cynaliadwy yn y cyfnodau aros.

4. Yn gresynu’r ffaith na fu strategaeth gyffredinol eglur i gwtogi’r cyfnodau aros drwy Gymru.

5. Yn galw am roi ar waith fesurau i sicrhau bod cleifion sy’n derbyn triniaeth mewn lleoliadau amgen o dan Gynllun yr Ail Gynnig yn derbyn y gofal parhaus gorau posibl ar ôl y driniaeth.

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

Yn credu bod arafwch cynllun yr ail gynnig yn y flwyddyn gyntaf y bu ar waith yn bwrw amheuaeth ar allu'r cynllun fel y mae ar yn o bryd i gyflawni targedau'r Llywodraeth.

**Gwelliant 3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1 ychwanegu 'diffyg yn' ar ôl ‘nodi'.

**Gwelliant 4. David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu i osod yr un targed o gyfnod aros o 18 wythnos â Llywodraeth y DU erbyn 2008.

**Gwelliant 5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Llafur y Cynulliad i gyhoeddi'r holl restri aros, gan gynnwys y niferoedd sy'n aros o'r pwynt cyfeirio a'r holl rai ar gyfer gweithdrefnau diagnostig, er mwyn hwyluso dadl lawn ar achosion rhestri aros yng Nghymru.

**......................................**

## Eitem 5

**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty**

**NDM2265 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.12:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty ar gyfer 2003-04, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2005.

Dogfen Ategol
Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty ar gyfer 2003-04

....................................

**Eitem 6**

**Cynnig i gymeradwyo y Cod Ymddygiad Pwyllgor y Ty**

**NDM2264 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.14:

Yn cymeradwyo'r Cod Canllawiau i Aelodau Pwyllgor y Ty, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2005.

Dogfen Ategol
Cod Canllawiau i Aelodau Pwyllgor y Ty - *Dim fersiwn Cymraeg*

....................................

**Eitem 7**

**Dadl fer**

**NDM2263 Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd bydd 'Iaith Pawb' yn Iaith Pawb / When will 'Iaith Pawb' be Everybody's Language

....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

....................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 1 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**